

# PROTOCOL ARFER GORAU TPC 1C

## ADOLYGIAD CYN-GWRANDAWIAD

### Cyflwyniad

1. At ddibenion y datganiad arfer hwn, bydd achos efallai angen adolygiad cyn y gwrandawriad pan fydd yn cynnwys:
  - eiddo eang sy'n ymwneud â phriswyr arbenigol ac asiantau proffesiynol;
  - toriad mewn trafodaethau a phartïon yn methu â chyfnewid tystiolaeth neu gytuno ar ffeithiau;
  - honiadau difrifol yn erbyn gonestrwydd un o'r partïon;
  - cyflwyno deunydd sensitif neu gyfrinachol;
  - ceisiadau niferus am Ohiriadau neu Oedi; neu
  - unrhyw ffactor arall sy'n gofyn am gyhoeddi cyfarwyddiadau penodol.

Nid yw'r rhestr uchod yn un gynhwysfawr.

### Deddfwriaeth

- Rheol 26 o Reoliadau Ardrethu Annomestig (Newid i Restrâu ac Apelau) (Cymru) 2005 (OS 2005/758)
  - Rheol 21 o Reoliadau Treth Gyngor (Newid i Restrâu ac Apelau) 1993 (OS 1993/290)
2. Gall Cadeirydd y Tribiwnlys ar gais parti, neu ar ei gynnig ei hun, orchymyn i adolygiad cyn-wrandawriad gael ei gynnal. Gellir gwneud hyn ar unrhyw adeg. (Enghraifft o lythyr galw yn cael ei gynnwys yn Atodiad 1)
  3. Bydd Cadeirydd y Tribiwnlys yn penderfynu wedi'r adolygiad cyn-wrandawriad pa gyfarwyddiad dylid cael eu cyhoeddi er mwyn hwyluso prif wrandawriad yr apêl. (Enghraifft o gyfarwyddiadau yn cael ei gynnwys yn Atodiad 2)

# ATODIAD 1

## RHYBUDD O ADOLYGIAD CYN-WRANDAWIAD

Yn unol â Rheol ..... bydd Cadeirydd y Tribiwnlys yn cynnal adolygiad cyn-wrandawriad mewn perthynas ag apêl rhif .....

Fel parti i'r apêl hon mae'n ofynnol i chi fynychu (lleoliad, dyddiad ac amser)

Diben yr adolygiad cyn-wrandawriad yw gwneud trefniadau ar gyfer gwrandawriad sylweddol o'r apêl, a bydd yn cynnwys;

1. Nodi'r materion dan anghydfod;
2. Gwneud cyfarwyddiadau o ran cyfnewid tystiolaeth;
3. Penderfynu a oes modd i'r apêl gael ei glywed ar y cyd ag apelau eraill sy'n delio â'r un mater;
4. Gosod allan y rheolau sylfaenol i alluogi i'r apêl gael ei glywed mewn ffordd effeithlon;
5. Penderfynu ar ddyddiad y gwrandawriad.

Ni fydd yr adolygiad cyn-wrandawriad yn penderfynu'r apêl, bydd y gwrandawriad hynny yn cael ei drefnu yn ddiweddarach.

## ATODIAD 2

### ADOLYGIAD CYN-WRANDAWIAD – CYFARWYDDIADAU

Gallai cyfarwyddiadau gynnwys:

1. Bydd y partïon yn darparu datganiad cytunedig o ffeithiau i'r Tribiwnlys gyda'r materion i'w pennu gan y Tribiwnlys dim hwyrach na .....
2. Bydd y partïon yn darparu amcangyfrif o ran hyd y gwrاندawiad a dyddiadau i'w hosgoi i'r Tribiwnlys dim hwyrach na .....
3. Os yw'n berthnasol, bydd y partïon yn darparu, datganiad o dystion i ddibynnu arnynt i'r Tribiwnlys
4. Rhaid i'r partïon gyfnewid dadleuon fframwaith cyn y gwrاندawiad ac yn cyflwyno pedwar copi o'r dadleuon hyn i'r Tribiwnlys.
5. Mae'r partïon yn rhydd i wneud cais, yn ysgrifenedig, am gyfarwyddiadau pellach neu ddiwygiad o'r cyfarwyddiadau presennol.

**Gall methiant i gadw at unrhyw gyfarwyddyd(iadau) olygu gohirio penderfynu ar eich apêl**